



CBAC TGAU
Cerddoriaeth
3660CS
Arholiadau Haf 2022

Uned 3

Arfarnu

Dydd Mercher, 22 Mehefin 2022

Gwybodaeth Ymlaen Llaw

Gwybodaeth gyffredinol i fyfyrwyr ac athrawon

Mae'r wybodaeth ymlaen llaw hon yn rhoi ffocws i'r hyn y bydd papur arholiad haf 2022 yn ei gynnwys.

Nid yw'n berthnasol i unrhyw gyfres arholiadau arall.

Bwriad y wybodaeth hon yw cefnogi'r broses o adolygu.

Gellir ei defnyddio ar unrhyw adeg o'r dyddiad y cafodd ei rhyddhau.

Ni ddylid mynd â'r wybodaeth hon i mewn i'r arholiad.

Rhyddhawyd: 7 Chwefror 2022

Gwybodaeth am y pwnc i fyfyrwyr ac athrawon

Mae rhagor o wybodaeth am addasiadau i gymwysterau CBAC TGAU a TAG yn 2022 ar gael yn: <https://www.cbac.co.uk/home/addasiadau-haf-2022/>

Mae'r wybodaeth ymlaen llaw hon yn ymdrin ag Uned 3 yn unig. Nid oes unrhyw wybodaeth ymlaen llaw ar gyfer Uned 1 nac Uned 2 sy'n Asesiadau Di-arholiad.

Awgrymir y dylid canolbwyntio'n benodol ar y meysydd cynnwys sy'n dilyn wrth adolygu a pharatoi'n derfynol, yn barod at arholiadau Haf 2022. Y nod o hyd yw y bydd yr addysgu a'r dysgu wedi ymdrin â holl gynnwys y fanyleb.

Mae'r Wybodaeth Ymlaen Llaw hon yn rhoi manylion am y genres, yr arddulliau neu'r gwaith gosod ym mhob Maes Astudio. Gall athrawon a myfyrwyr ddewis canolbwyntio ar y meysydd hyn ond ni ddylent o reidrydd beidio ag adolygu genres, arddulliau ac adrannau eraill o'r gwaith gosod gan y bydd y rhain yn cefnogi'r myfyrwyr yn eu dealltwriaeth o nodweddion cerddorol, a'r gwaith gosod yn ei gyfanrwydd neu yn ei gyd-destun, yn ogystal â'u paratoi'n llawnach ar gyfer astudio yn y dyfodol.

Uned 3

- Bydd cwestiynau gwaith gosod yn canolbwyntio ar adran A o *Anitra's Dance* ac ar ragarweiniad, pennill gyntaf, cyn-gytgan a chytgan *Everything Must Go*.
- Bydd dyfyniadau heb eu paratoi yn y genres canlynol:
 - cerddoriaeth Baróc
 - caneuon/alawon gwerin Cymreig
 - theatr gerdd
 - cerddoriaeth ffilm
 - cerddoriaeth boblogaidd.
- Bydd yr ymateb estynedig yn seiliedig ar Faes Astudio 1, Ffurfiâu a Dyfeisiau Cerddorol.
- Bydd y cwestiwn arddweud yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr nodiannu rhythm yn unig.

Diwedd y wybodaeth ymlaen llaw